



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2015 Rhif 1687 (Cy. 219) (C. 98)

2015 No. 1687 (W. 219) (C. 98)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

Gorchymyn Deddf Cymwysterau
Cymru 2015 (Cychwyn Rhif 2 a
Darpariaethau Trosiannol ac Arbed)
2015

The Qualifications Wales Act 2015
(Commencement No. 2 and
Transitional and Saving Provisions)
Order 2015

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym yn llawn ar 21 Medi 2015 holl ddarpariaethau Deddf Cymwysterau Cymru 2015 ("y Ddeddf") nad ydynt eisoes wedi eu cychwyn, neu nad ydynt ond wedi eu cychwyn yn rhannol (erthygl 2).

Cychwynwyd y darpariaethau yn y Ddeddf sy'n ymwneud â sefydlu Cymwysterau Cymru fel corff corfforaethol ar 6 Awst 2015.

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ddarpariaethau'r Ddeddf sy'n weddill, y mae llawer ohonynt yn rhoi swyddogaethau i Gymwysterau Cymru mewn perthynas â rheoleiddio cymwysterau penodol a ddyfermir yng Nghymru. Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn dwyn i rym ddarpariaethau sy'n diddymu swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan Ran 5 o Ddeddf Addysg 1997 ("Deddf 1997") a darpariaethau sy'n ymwneud â chyllido'n gyhoeddus gyrsiau penodol sy'n arwain at gymwysterau.

Mae Rhan 3 o'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â chychwyn y darpariaethau hyn. Yn gyffredinol, mae'r darpariaethau trosiannol yn galluogi Gymwysterau Cymru i gymryd drosodd y gwaith o reoleiddio dyfarnu cymwysterau yng Nghymru oddi wrth Weinidogion Cymru, a oedd yn arfer swyddogaethau rheoleiddiol tebyg o dan Ddeddf 1997.

Mae erthygl 3 yn gwneud darpariaeth gyffredinol i gael parhad fel y caniateir i swyddogaethau a oedd yn arferadwy gan Weinidogion Cymru cyn 21 Medi 2015 ac sy'n cyfateb i swyddogaeth newydd sy'n arferadwy gan Gymwysterau Cymru ar y dyddiad hwnnw, fod yn arferadwy gan Gymwysterau Cymru ar y dyddiad

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order brings into force fully on 21 September 2015 all the provisions of the Qualifications Wales Act 2015 ("the Act") which have not already been commenced, or only commenced partially (article 2).

The provisions of the Act relating to the establishment of Qualifications Wales as a body corporate were commenced on 6 August 2015.

This Order brings into force the remaining provisions of the Act, many of which confer functions on Qualifications Wales in relation to the regulation of certain qualifications awarded in Wales. This Order also brings into force provisions repealing functions of the Welsh Ministers under Part 5 of the Education Act 1997 ("the 1997 Act") and provisions related to the public funding of certain courses leading to qualifications.

Part 3 of this Order makes transitional provision in connection with the commencement of these provisions. Generally, the transitional provisions enable Qualifications Wales to take over the regulation of the award of qualifications in Wales from the Welsh Ministers, who exercised similar regulatory functions under the 1997 Act.

Article 3 makes general provision for continuity so that functions which were exercisable by the Welsh Ministers before 21 September 2015 and which correspond to a new function exercisable by Qualifications Wales on that date, may be exercisable by Qualifications Wales on and after that date. For the

hwnnw ac ar ôl y dyddiad hwnnw. Er mwyn osgoi amheuaeth mae paragraff (4) o erthygl 3 yn darparu nad yw'r swyddogaeth o osod cosb ariannol yn un sy'n arferadwy gan Gymwysterau Cymru ar 21 Medi 2015; y rheswm dros hyn yw oherwydd ar 21 Medi 2015 nid yw'r pŵer o dan adran 38(3) o'r Ddeddf i wneud rheoliadau sy'n delio â swm cosb ariannol wedi cael ei arfer. Mae erthygl 3 yn ddarostyngedig i'r erthyglau dilynol, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer parhad mewn cysylltiad â materion penodol.

Mae erthyglau 4 i 8 yn gwneud darpariaeth drosiannol benodol mewn perthynas â chydabod cyrff dyfarnu. Mae erthygl 4 yn darparu i bersonau penodol gael eu trin fel pe baent wedi eu cydnabod gan Gymwysterau Cymru o dan adran 8 o'r Ddeddf. Mae erthygl 5 yn darparu ar gyfer y meini prawf sydd i gael eu cymhwysio i gydnabyddiaeth gyffredinol o dan adran 5 o'r Ddeddf. Mae erthygl 6 yn darparu i geisiadau i Weinidogion Cymru am gydnabyddiaeth o dan adran 30 o Ddeddf 1997, sydd wedi eu gwneud ond nad oes penderfyniad wedi ei wneud yn eu cylch cyn 21 Medi 2015, gael eu trin fel ceisiadau i Gymwysterau Cymru am gydnabyddiaeth gyffredinol o dan adran 8 o'r Ddeddf. Mae erthygl 7 yn darparu ar gyfer yr amodau cydnabod safonol (o dan baragraff 2 o Atodlen 3 i'r Ddeddf) sy'n gymwys i gyrff dyfarnu cydnabyddedig o 21 Medi 2015 ymlaen. Mae erthygl 8 yn darparu i hysbysiadau penodol gan bersonau sy'n dymuno ildio eu cydnabyddiaeth i ryw raddau gael eu trin fel hysbysiadau ildio o dan baragraff 17 o Atodlen 3 i'r Ddeddf.

Mae erthygl 9 yn darparu i'r ffurfiau ar gymhwyster a nodir yn yr Atodlen gael eu trin fel pe baent wedi eu cymeradwyo o dan adran 19 o'r Ddeddf.

Mae erthygl 10 yn darparu i gymwysterau penodol gael eu trin fel rhai sydd wedi eu dynodi o dan adran 29 o'r Ddeddf. Mae erthygl 11 yn darparu i achosion penodol o gyflwyno ffurfiau ar gymwysterau i Weinidogion Cymru i'w hachredu nad oes penderfyniad wedi ei wneud yn eu cylch cyn 21 Medi 2015 gael eu trin fel ceisiadau i Gymwysterau Cymru iddynt gael eu dynodi o dan adran 29 o'r Ddeddf.

Mae'r holl ffurfiau ar gymhwyster sydd i gael eu trin fel pe baent naill ai wedi eu cymeradwyo neu eu dynodi yn ffurfiau sydd wedi eu hachredu o dan adran 30(1)(h) o Ddeddf 1997.

Mae erthygl 12 yn darparu i gwynion penodol i Weinidogion Cymru gael eu trin fel cwynion at ddibenion adran 48 o'r Ddeddf.

Mae erthygl 13 yn gwneud darpariaeth arbed mewn perthynas â chymwysterau sydd wedi eu hachredu gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf 1997 at ddibenion diffiniad yn rheoliad 3 o Reoliadau'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol 2015.

avoidance of doubt paragraph (4) of article 3 provides that the function of imposing a monetary penalty is not one exercisable by Qualifications Wales on 21 September 2015: this is because as at 21 September 2015 the power under section 38(3) of the Act to make regulations dealing with the amount of a monetary penalty has not been exercised. Article 3 is subject to the subsequent articles, which make provision for continuity in respect of specific matters.

Articles 4 to 8 make specific transitional provision in relation to the recognition of awarding bodies. Article 4 provides for certain persons to be treated as recognised by Qualifications Wales under section 8 of the Act. Article 5 provides for the criteria to be applied to general recognition under section 5 of the Act. Article 6 provides for applications to the Welsh Ministers for recognition under section 30 of the 1997 Act, which have been made but not determined before 21 September 2015, to be treated as applications to Qualifications Wales for general recognition under section 8 of the Act. Article 7 provides for the standard conditions of recognition (under paragraph 2 of Schedule 3 to the Act) applicable to recognised awarding bodies from 21 September 2015. Article 8 provides for certain notices by persons wishing to surrender their recognition in some respect to be treated as surrender notices under paragraph 17 of Schedule 3 to the Act.

Article 9 provides for the forms of qualification identified in the Schedule to be treated as having been approved under section 19 of the Act.

Article 10 provides for certain qualifications to be treated as designated under section 29 of the Act. Article 11 provides for certain submissions of forms of qualifications to the Welsh Ministers for accreditation which have not been determined before 21 September 2015 to be treated as applications to Qualifications Wales for designation under section 29 of the Act.

All the forms of qualification to be treated as either approved or designated are ones which are accredited under section 30(1)(h) of the 1997 Act.

Article 12 provides for certain complaints to the Welsh Ministers to be treated as complaints for the purposes of section 48 of the Act.

Article 13 makes a saving provision in relation to qualifications accredited by the Welsh Ministers under the 1997 Act for the purposes of a definition in regulation 3 of the National Minimum Wage Regulations 2015.

**NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN
CYNHARACH**

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

**NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT
ORDERS**

(This note is not part of the Order)

<i>Y Ddarpariaeth</i>	<i>Y Cychwyn</i>	<i>Dyddiad Rhif O.S.</i>	<i>Provision</i>	<i>Date of Commencement</i>	<i>S.I. No.</i>
Adran 2(1)	6 Awst 2015	2015/1591 (Cy. 191) (C. 92)	Section 2(1)	6 August 2015	2015/1591 (W. 191) (C. 92)
Adran 2(2) (yn rhannol)	6 Awst 2015	2015/1591 (Cy. 191) (C. 92)	Section 2(2) (partially)	6 August 2015	2015/1591 (W. 191) (C. 92)
Atodlen 1, Rhan 1, (paragraffau 1 – 35)	6 Awst 2015	2015/1591 (Cy. 191) (C. 92)	Schedule 1, Part 1 (paragraphs 1 – 35)	6 August 2015	2015/1591 (W. 191) (C. 92)
Atodlen 1, paragraff 37	6 Awst 2015	2015/1591 (Cy. 191) (C. 92)	Schedule 1, paragraph 37	6 August 2015	2015/1591 (W. 191) (C. 92)

2015 Rhif 1687 (Cy. 219) (C. 98)

2015 No. 1687 (W. 219) (C. 98)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

Gorchymyn Deddf Cymwysterau
Cymru 2015 (Cychwyn Rhif 2 a
Darpariaethau Trosiannol ac Arbed)
2015

The Qualifications Wales Act 2015
(Commencement No. 2 and
Transitional and Saving Provisions)
Order 2015

Gwnaed

16 Medi 2015

Made

16 September 2015

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 60(2) a (3) o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015(1), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by section 60(2) and (3) of the Qualifications Wales Act 2015(1), make the following Order:

RHAN 1

Enwi a dehongli

PART 1

Title and Interpretation

Enwi a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cymwysterau Cymru 2015 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2015.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

mae i “cymhwyster perthnasol” yr un ystyr ag a roddir i “relevant qualification” yn adran 30 o Ddeddf 1997(2) fel y mae'r adran honno mewn grym yn union cyn 21 Medi 2015;

ystyr “Deddf 1997” (“*the 1997 Act*”) yw Deddf Addysg 1997(3);

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Cymwysterau Cymru 2015;

Title and interpretation

1.—(1) The title of this Order is the Qualifications Wales Act 2015 (Commencement No. 2 and Transitional and Saving Provisions) Order 2015.

(2) In this Order—

“the 1997 Act” (“*Deddf 1997*”) means the Education Act 1997(2);

“the Act” (“*y Ddeddf*”) means the Qualifications Wales Act 2015;

“the Database” (“*y Gronfa Ddata*”) means the database published online(3) called “the Database of Approved Qualifications in Wales” and which is also known as “DAQW”;

(1) 2015 decc 5.

(2) Gwneir diwygiadau i adran 30 o Ddeddf 1997 sy'n berthnasol i'r Gorchymyn hwn gan: Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), adran 103(1) a (4)(c) ac Atodlen 11; Gorchymyn Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Aseu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Awdurdod) 2005 (O.S. 2005/3239) (Cy. 244), Atodlen 1, paragraffau 6, 14, a 15(b) ac (ch); a Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p. 22), Atodlen 12, paragraffau 12 a 15 ac Atodlen 16, Rhan 4.

(3) 1997 p. 44. Mae llawer o ddiwygiadau i Ran 5 o'r Ddeddf hon.

(1) 2015 anaw 5.

(2) 1997 c. 44. There are many amendments to Part 5 of this Act.

(3) As at 21 September 2015, this database is at www.daqw.org.uk.

ystyr “y Gronfa Ddata” (“*the Database*”) yw’r gronfa ddata a gyhoeddir ar-lein(1) o’r enw “y Gronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy yng Nghymru” ac a elwir hefyd yn “DAQW”.

RHAN 2 Cychwyn

Y darpariaethau sy’n dod i rym ar 21 Medi 2015

2. Mae darpariaethau’r Ddeddf, i’r graddau nad ydynt wedi eu cychwyn eto, yn dod i rym ar 21 Medi 2015.

RHAN 3 Darpariaethau trosiannol

Parhad: cyffredinol

3.—(1) Mae’r erthygl hon yn gymwys i’r graddau y mae swyddogaeth, sy’n arferadwy gan Gymwysterau Cymru o 21 Medi 2015 ymlaen (“y swyddogaeth newydd”) yn cyfateb i swyddogaeth a oedd yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o dan Ran 5 o Ddeddf 1997 cyn y dyddiad hwnnw (“yr hen swyddogaeth”).

(2) Mae unrhyw beth sydd wedi ei wneud, neu sydd heb ei wneud, cyn 21 Medi 2015 gan neu mewn perthynas â Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â’r hen swyddogaeth i gael ei drin, o’r dyddiad hwnnw, fel pe bai wedi ei wneud, neu i gael ei barhau, neu heb ei wneud, gan neu mewn perthynas â Chymwysterau Cymru mewn cysylltiad â’r swyddogaeth newydd.

(3) O 21 Medi 2015 ymlaen, caiff Cymwysterau Cymru gymryd camau mewn cysylltiad â’r swyddogaeth newydd sy’n ymwneud ag amgylchiadau sy’n digwydd cyn y dyddiad hwnnw fel pe bai’r swyddogaeth newydd wedi bod mewn grym pan ddigwyddodd yr amgylchiadau a arweiniodd at ei harfer ac felly, o’r dyddiad hwnnw ymlaen, ni chaiff Gweinidogion Cymru gymryd camau mewn cysylltiad â’r hen swyddogaeth.

(4) Yn unol â hynny, i’r graddau y bo’n angenrheidiol i roi effaith i baragraffau (1) i (3), mae cyfeiriadau at Weinidogion Cymru neu Lywodraeth Cymru (ym mha fodd bynnag y’u disgrifir) a’r hen swyddogaeth mewn dogfen sy’n ymwneud â’r hen swyddogaeth, a chyfeiriadau sy’n cymryd effaith fel cyfeiriadau at Weinidogion Cymru neu Lywodraeth

“relevant qualification” (“*cymhwyster perthnasol*”) has the same meaning as in section 30 of the 1997 Act(1) as that section is in force immediately before 21 September 2015.

PART 2 Commencement

Provisions coming into force on 21 September 2015

2. The provisions of the Act to the extent that they are not yet commenced, come into force on 21 September 2015.

PART 3 Transitional provisions

Continuity: general

3.—(1) This article applies to the extent that a function, exercisable by Qualifications Wales from 21 September 2015 (“the new function”) corresponds to a function exercisable by the Welsh Ministers under Part 5 of the 1997 Act before that date (“the old function”).

(2) Anything done, or omitted to be done, before 21 September 2015 by or in relation to the Welsh Ministers in connection with the old function is to be treated, from that date, as done, or to be continued, or omitted to be done, by or in relation to Qualifications Wales in connection with the new function.

(3) From 21 September 2015, Qualifications Wales may take action in connection with the new function which relates to circumstances occurring before that date as if the new function had been in force when the circumstances giving rise to its exercise occurred and so from that date, the Welsh Ministers may not take action in connection with the old function.

(4) Accordingly, so far as necessary to give effect to paragraphs (1) to (3), references to the Welsh Ministers or the Welsh Government (however described) and the old function in a document relating to the old function, and references which take effect as references to the Welsh Ministers or the Welsh

(1) Ar 21 Medi 2015, mae’r gronfa ddata hon i’w gweld yn www.daqw.org.uk.

(1) Amendments to section 30 of the 1997 Act which are relevant to this Order are made by: the Learning and Skills Act 2000 (c. 21), section 103(1) and (4)(c) and Schedule 11; the Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales (Transfer of Functions to the National Assembly for Wales and Abolition) Order 2005 (S.I. 2005/3239) (W. 244), Schedule 1, paragraphs 6, 14, and 15(b) and (d); and the Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009 (c. 22), Schedule 12, paragraphs 12 and 15 and Schedule 16, Part 4.

Cymru (ym mha fodd bynnag y'u disgrifir) a'r hen swyddogaeth mewn dogfen o'r fath i gael eu darllen, o 21 Medi 2015 ymlaen, fel cyfeiriadau at Gymwysterau Cymru a'r swyddogaeth newydd.

(5) Mae paragraffau (1) i (4) yn cael effaith yn ddarostyngedig i'r darpariaethau a ganlyn yn y Gorchymyn hwn.

(6) At ddibenion paragraff (1), nid yw gosod cosb ariannol o dan adran 38(1) neu (2) o'r Ddeddf yn swyddogaeth sy'n arferadwy gan Gymwysterau Cymru o 21 Medi 2015 ymlaen.

Personau sydd i gael eu trin fel rhai sydd wedi eu cydnabod o dan adran 8

4.—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys pan fo person, yn union cyn 21 Medi 2015, wedi ei gydnabod o dan adran 30(1)(e) o Ddeddf 1997(1) mewn cysylltiad â dyfarnu neu ddilysu cymhwyster perthnasol penodedig neu ddisgrifiad o gymhwyster perthnasol.

(2) O 21 Medi 2015 ymlaen, mae'r person i gael ei drin fel un sydd wedi ei gydnabod o dan adran 8 (cydnabod corff dyfarnu yn gyffredinol) o'r Ddeddf.

(3) Ond os yw'r person wedi hysbysu Gweinidogion Cymru yn ysgrifenedig cyn y dyddiad hwnnw nad yw'r person yn dymuno cael ei gydnabod o dan adran 8 mewn cysylltiad â chymhwyster neu ddisgrifiad o gymhwyster nad yw'r corff wedi ei gydnabod mewn cysylltiad ag ef o dan adran 30(1)(e) o Ddeddf 1997, mae'r person i gael ei drin fel pe bai wedi pennu'r cymhwyster hwnnw neu'r disgrifiad hwnnw o gymhwyster o dan adran 8(2) o'r Ddeddf.

Meini prawf cydnabod cyffredinol

5.—(1) O 21 Medi 2015 ymlaen, mae'r meini prawf sydd wedi eu cynnwys yn y ddogfen a ddisgrifir ym mharagraff (2), yn ddarostyngedig i'r diwygiadau iddynt y darperir ar eu cyfer yn y ddogfen a ddisgrifir ym mharagraff (3), i gael eu trin fel y meini prawf cydnabod cyffredinol sydd wedi eu gosod a'u cyhoeddi gan Gymwysterau Cymru o dan adran 5 o'r Ddeddf.

(2) Y ddogfen yw'r un â'r rhif ISBN 978 0 7504 7250 2, o'r enw "Criteria for Recognition March 2012" a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2012 ac a gyhoeddir ar-lein ym mis Medi 2015 a'i enw'n cynnwys y cyfeirnod QWRD0001(2).

Government (however described) and the old function in such a document, are to be read, from 21 September 2015, as references to Qualifications Wales and the new function.

(5) Paragraphs (1) to (4) have effect subject to the following provisions of this Order.

(6) For the purposes of paragraph (1), the imposition of a monetary penalty under section 38(1) or (2) of the Act is not a function exercisable by Qualifications Wales from 21 September 2015.

Persons to be treated as recognised under section 8

4.—(1) This article applies where, immediately before 21 September 2015 a person is recognised under section 30(1)(e) of the 1997 Act(1) in respect of the award or authentication of a specified relevant qualification or description of relevant qualification.

(2) From 21 September 2015, the person is to be treated as recognised under section 8 (general recognition of an awarding body) of the Act.

(3) But if the person has informed the Welsh Ministers in writing before that date that the person does not wish to be recognised under section 8 in respect of a qualification or description of qualification in respect of which the body is not recognised under section 30(1)(e) of the 1997 Act, the person is to be treated as having specified that qualification or description of qualification under section 8(2) of the Act.

General recognition criteria

5.—(1) From 21 September 2015, the criteria contained in the document described in paragraph (2), subject to the amendments to them provided for in the document described in paragraph (3), are to be treated as the general recognition criteria which have been set and published by Qualifications Wales under section 5 of the Act.

(2) The document is that with ISBN 978 0 7504 7250 2, titled "Criteria for Recognition March 2012", published in March 2012 and published online in September 2015 with a title containing the reference QWRD0001(2).

(1) Amnewidwyd adran 30(1) gan Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p. 22), Atodlen 12, paragraffau 12 a 15(1) a (2).

(2) Ar 21 Medi 2015, mae'r ddogfen hon ar gael yn www.cymwysteraucymru.org.

(1) Section 30(1) was substituted by the Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009 (c. 22), Schedule 12, paragraphs 12 and 15(1) and (2).

(2) As at 21 September 2015, this document is available at www.qualificationswales.org.

(3) Y ddogfen yw'r un o'r enw "Amendments to Criteria for Recognition" ac a gyhoeddir ar-lein ym mis Medi 2015 a'i enw'n cynnwys y cyfeirnod QWRD0002(1).

Ceisiadau am gydnabyddiaeth

6.—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys pan fo person wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru cyn 21 Medi 2015 am gydnabyddiaeth o dan adran 30(1)(e) o Ddeddf 1997 nad yw wedi ei dynnu'n ôl gan y person ac nad yw Gweinidogion Cymru wedi penderfynu yn ei gylch, cyn y dyddiad hwnnw.

(2) O 21 Medi 2015 ymlaen, mae'r cais i gael ei drin fel cais i Gymwysterau Cymru gan y person am gydnabyddiaeth gyffredinol o dan adran 8 o'r Ddeddf.

(3) Caiff y person, ar neu ar ôl 21 Medi 2015 ond cyn i Gymwysterau Cymru benderfynu pa un ai i gydnabod y person ai peidio, bennu'n ysgrifenedig i Gymwysterau Cymru gymhwyster neu ddisgrifiad o gymhwyster nad yw'r person yn dymuno cael ei gydnabod mewn cysylltiad â'i ddyfarnu ac mae'r person i gael ei drin fel pe bai wedi pennu'r cymhwyster neu'r disgrifiad o gymhwyster o dan adran 8(2) o'r Ddeddf.

Amodau cydnabod

7.—(1) O 21 Medi 2015 ymlaen, mae'r amodau yn y ddogfen a ddisgrifir ym mharagraff (2), yn ddarostyngedig i'r diwygiadau iddynt y darperir ar eu cyfer yn y ddogfen a ddisgrifir ym mharagraff (3), i gael eu trin fel yr amodau cydnabod safonol a lunnir ac a gyhoeddir gan Gymwysterau Cymru o dan baragraff 2(1) o Atodlen 3 i'r Ddeddf.

(2) Y ddogfen yw'r un o'r enw "General conditions of Recognition March 2015" a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2015(2) ac a gyhoeddir ar-lein ym mis Medi 2015 a'i enw'n cynnwys y cyfeirnod QWRD0003(3).

(3) Y ddogfen yw'r un o'r enw "Amendments to General Conditions of Recognition" ac a gyhoeddir ar-lein ym mis Medi 2015 a'i enw'n cynnwys y cyfeirnod QWRD0004(4).

(4) O 21 Medi 2015 ymlaen, ystyr cyfeiriadau yn y dogfennau a ddisgrifir ym mharagraffau (2) a (3) at "regulatory documents" yw'r dogfennau a restrir yn y

(3) The document is that titled "Amendments to Criteria for Recognition" and published online in September 2015 with a title containing the reference QWRD0002(1).

Applications for recognition

6.—(1) This article applies where an application has been made to the Welsh Ministers before 21 September 2015 by a person for recognition under section 30(1)(e) of the 1997 Act which has neither been withdrawn by the person nor determined by the Welsh Ministers, before that date.

(2) From 21 September 2015, the application is to be treated as an application to Qualifications Wales by the person for general recognition under section 8 of the Act.

(3) The person may, on or after 21 September 2015 but before Qualifications Wales determines whether or not to recognise the person, specify in writing to Qualifications Wales a qualification or description of qualification in respect of the award of which the person does not wish to be recognised and the person is to be treated as having specified the qualification or description of qualification under section 8(2) of the Act.

Conditions of recognition

7.—(1) From 21 September 2015, the conditions in the document described in paragraph (2), subject to the amendments to them provided for in the document described in paragraph (3), are to be treated as the standard conditions of recognition prepared and published by Qualifications Wales under paragraph 2(1) of Schedule 3 to the Act.

(2) The document is that titled "General conditions of Recognition March 2015", published in March 2015(2) and published online in September 2015 with a title containing the reference QWRD0003(3).

(3) The document is that titled "Amendments to General Conditions of Recognition" and published online in September 2015 with a title containing the reference QWRD0004(4).

(4) From 21 September 2015, references in the documents described in paragraphs (2) and (3) to "regulatory documents" mean the documents listed in

(1) Ar 21 Medi 2015, mae'r ddogfen hon ar gael yn www.cymwysteraucymru.org.
(2) Ym mis Mawrth 2015, anfonodd Gweinidogion Cymru gopïau o'r ddogfen hon at swyddogion cyfrifol personau a oedd wedi eu cydnabod bryd hynny o dan adran 30(1)(e) o Ddeddf 1997.
(3) Ar 21 Medi 2015, mae'r ddogfen hon ar gael yn www.cymwysteraucymru.org.
(4) Ar 21 Medi 2015, mae'r ddogfen hon ar gael yn www.cymwysteraucymru.org.

(1) As at 21 September 2015, this document is available at www.qualificationswales.org.
(2) In March 2015, the Welsh Ministers sent copies of this document to the responsible officers of persons then recognised under section 30(1)(e) of the 1997 Act.
(3) As at 21 September 2015, this document is available at www.qualificationswales.org.
(4) As at 21 September 2015, this document is available at www.qualificationswales.org.

ddogfen o'r enw "Qualifications Wales Regulatory Documents List" ac a gyhoeddir ar-lein ym mis Medi 2015 a'i enw'n cynnwys y cyfeirnod QWRD0005(1).

(5) O 21 Medi 2015 ymlaen, ystyr cyfeiriadau yn y ddogfen a ddisgrifir ym mharagraff (2) at "certificate requirements" yw'r gofynion a nodir yn y ddogfen o'r enw "Additional Certificate Requirements" ac a gyhoeddir ar-lein ym mis Medi 2015 a'i enw'n cynnwys y cyfeirnod QWRD0006(2).

Ceisiadau i ildio cydnabyddiaeth

8.—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys—

- (a) pan fo person sydd wedi ei gydnabod o dan adran 30(1)(e) o Ddeddf 1997 wedi rhoi hysbysiad i Weinidogion Cymru o dan adran 32C(1) (ildio cydnabyddiaeth) o'r Ddeddf honno(3) cyn 21 Medi 2015 ac nad yw'r hysbysiad hwnnw wedi ei dynnu'n ôl, a
- (b) pan na fo Gweinidogion Cymru wedi rhoi hysbysiad o dan adran 32C(2) cyn 21 Medi 2015 am y dyddiad y mae'r person hwnnw i beidio â chael ei gydnabod yn y cyswllt o dan sylw.

(2) Os yw'r person hwnnw wedi rhoi hysbysiad sydd o fewn paragraff (4), mae'r person i gael ei drin fel pe bai wedi rhoi hysbysiad ildio o dan baragraff 17 o Atodlen 3 i'r Ddeddf—

- (a) a geir ar y dyddiad y mae Gweinidogion Cymru neu Gymwysterau Cymru yn cael yr hysbysiad o fewn paragraff (4),
- (b) sydd mewn cysylltiad â'r un cymwysterau â'r hysbysiad a roddir o dan adran 32C(1) o Ddeddf 1997, ac
- (c) sy'n pennu'r dyddiad a roddir yn yr hysbysiad o fewn paragraff (4) fel y dyddiad at ddibenion paragraff 17(2) o'r Atodlen honno.

(3) Os nad yw'r person, cyn 21 Medi 2015, wedi rhoi hysbysiad sydd o fewn paragraff (4), rhaid i Gymwysterau Cymru, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, hysbysu'r person bod rhaid iddo roi hysbysiad i Gymwysterau Cymru sydd o fewn paragraff (4) cyn y gall Gymwysterau Cymru benderfynu pa bryd y mae'r gydnabyddiaeth yn y cyswllt o dan sylw i beidio â chael effaith.

the document titled "Qualifications Wales Regulatory Documents List" and published online in September 2015 with a title containing the reference QWRD0005(1).

(5) From 21 September 2015, references in the document described in paragraph (2) to the "certificate requirements" mean the requirements set out in the document titled "Additional Certificate Requirements" and published online in September 2015 with a title containing the reference QWRD0006(2).

Applications for surrender of recognition

8.—(1) This article applies where before 21 September 2015—

- (a) a person recognised under section 30(1)(e) of the 1997 Act has given notice to the Welsh Ministers under section 32C(1) (surrender of recognition) of that Act(3) and that notice has not been withdrawn, and
- (b) the Welsh Ministers have not given a notice under section 32C(2) of the date on which that person is to cease to be recognised in the respect in question.

(2) If that person has given a notice which is within paragraph (4), the person is to be treated as having given a surrender notice under paragraph 17 of Schedule 3 to the Act which—

- (a) is received on the date that the notice within paragraph (4) is received by the Welsh Ministers or Qualifications Wales,
- (b) is in respect of the same qualifications as the notice given under section 32C(1) of the 1997 Act, and
- (c) specifies the date given in the notice within paragraph (4) as the date for the purposes of paragraph 17(2) of that Schedule.

(3) If, before 21 September 2015, the person has not given a notice which is within paragraph (4), as soon as reasonably practicable Qualifications Wales must inform the person that it must give a notice to Qualifications Wales which is within paragraph (4) before Qualifications Wales can determine when recognition in the respect concerned is to cease to have effect.

(1) Ar 21 Medi 2015, mae'r ddogfen hon ar gael yn www.cymwysteraucymru.org.

(2) Ar 21 Medi 2015, mae'r ddogfen hon ar gael yn www.cymwysteraucymru.org.

(3) Mewnosodwyd adran 32C gan Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p. 22), Atodlen 12, paragraffau 12 a 19.

(1) As at 21 September 2015, this document is available at www.qualificationswales.org.

(2) As at 21 September 2015, this document is available at www.qualificationswales.org.

(3) Section 32C was inserted by the Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009 (c. 22), Schedule 12, paragraphs 12 and 19.

(4) Mae hysbysiad o fewn y paragraff hwn os yw'n hysbysiad ysgrifenedig oddi wrth y person sy'n datgan y dyddiad y mae'r person yn dymuno peidio â chael ei gydnabod pan ddaw'r dyddiad hwnnw i ben ac os rhoddir yr hysbysiad—

